

Gwlad o Gyfle

Academi Chwaraeon Syr Andrew Saltshire

Cynllun Tref Saltshire

Cymuned sydd wedi bod yn dirywio ers blynnyddoedd lawer yw Saltshire. Ers cau'r gloddfa halen leol mae diweithdra wedi cynyddu'n fawr. Mae menter wedi'i lansio gan y llywodraeth i ddod â bywyd newydd i'r rhanbarth.

Clustnodwyd ardal o dir fel lle addas i'w ailddatblygu. Mae'r llywodraeth wedi pennu y dylai gynnwys cartrefi, diwydiant, ysgol newydd, ac, yn ddadleuol, carchar agored.

Cyflwynodd y llywodraeth gynllun y mae'r pedwar parti sy'n ymwneud â'r datblygiad uchod i gyd yn ei wrthwynebu.

Y partïon yw Cartrefi Bensimon, Nestlom, Cwmni Diogelwch Group Five ac Academi Chwaraeon Saltshire. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cyn dechrau'r gwaith datblygu mae'r llywodraeth wedi cynnig y cyfle i'r pedwar grŵp ddod i ddatrasiad democrataidd.

Eich tasg yw cyd-drafod datrasiad sy'n dderbyniol i bawb. Mae gennych 30 munud i gynnal trafodaeth gychwynnol.

Rheolau Cyffredinol

1. Unwaith y bydd y ffiniau terfynol wedi'u cytuno, ni chaiff partïon groesi tir ei gilydd.
2. Dylid dyrannu pob rhan o'r penrhyn.



Academi Chwaraeon Syr Andrew Saltshire

Ysgol Syr Andrew Saltshire yw'r ysgol newydd arfaethedig ar gyfer Saltshire, fydd yn gwasanaethu plant yr ystâd dai newydd a'r gymuned ehangach. Bydd yn derbyn disgyblion o oed cynradd hyd at Flwyddyn 12. Mae'r ysgol wedi'i henwi ar ôl dyn busnes lleol sydd wedi cytuno i ymgymryd â rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr a chyllido cyfleusterau yn yr ysgol yn rhannol. Mae ganddo enw am fod yn frawychus ac ar ôl cael ei orfodi i werthu ei gwmni halen i gystadleuydd busnes, mae bellach yn berchen ar y tîm pêl-droed lleol ac yn awyddus i gynyddu ei ddylanwad yn y gymuned. Cynrychiolir yr ysgol newydd gan y Pennaeth gweithredol, sydd i'w weld yn ofni Syr Andrew ac sydd angen cadw ar yr ochr iawn iddo os yw ei swydd am ddod yn un barhaol. Mae rheolau'r Llywodraeth yn golygu bod rhaid i'r ysgol gael cyfleusterau ar gyfer chwarae yn yr awyr agored a chwaraeon.

- Byddai'n well ganddynt gael y tir sydd â mynediad at y mannau gwyrdd ar gyfer ymarfer corff
- Mae angen mynediad rhesymol arnynt at y cyflenwadau trydan sy'n bodoli a'r ystâd dai.
- Dydyn nhw ddim yn dymuno cael yr ardal o dir corsïog
- Dydyn nhw ddim am fod yn agos at y burfa halen rhag ofn i hyn ddigio Syr Andrew.
- Rhaid iddynt beidio â bod gerllaw'r carchar.



	Coedwig / Coed
	Ardal Werdd
	Cors / Morfa
	Tir Anffrwythlon
	Fflatiau Llaidd
	Hafn (Anrhamwyadwy)
	Clogwyni (Anrhamwyadwy)
	Dŵr Croyw
	Dŵr Hallt
	Tir Gwastad
	Mynyddoedd
	Ffordd Fach
	Traffordd